



Yr Uned Wenyn Genedlaethol

Rheoli Clefyd Ewropeaidd y Gwenyn

Ionawr 2022

Mae clefyd Ewropeaidd y gwenyn yn glefyd hysbysadwy statudol sy'n golygu ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i wenywyr roi gwybod i'r Uned Wenyn Genedlaethol os byddant yn amau bod unrhyw un o'u nythfeydd wedi'u heintio. Bydd Arolygydd Gwenyn Awdurdodedig yn archwilio'r nythfeydd ac yn helpu'r gwenynwr i roi mesurau ar waith i reoli'r clefyd. Fodd bynnag, dylai gwenynwyr ddatblygu sgiliau i allu canfod ac atal y clefyd hwn gan ddefnyddio arferion gwenyna hylan.

Bydd gosod crwybrau magu newydd mewn nythfeydd yn rheolaidd yn lleihau'r gyfran o bathogenau clefydau ac yn helpu i reoli clefyd Ewropeaidd y gwenyn. Gwyddys bod trosglwyddo crwybrau rhwng nythfeydd yn peri risg uchel o ledaenu clefydau. Bydd Arolygydd Gwenyn Awdurdodedig yn penderfynu pa un o'r triniaethau canlynol sy'n briodol ac yn trin y nythfeydd yn unol â hynny:

- Dinistrio'r nythfa
- Rhoi triniaeth Ysgwyd Haid
- Rhoi gwrthfotig; Ocsitetrasyclin (OTC)

Dinistrio

Rhaid i nythfeydd sydd â llai na chwe ffrâm lawn o fag, y mae mwy na 50% ohonynt wedi'u heintio'n weladwy neu sydd wedi cael eu trin yn ystod y 12 mis blaenorol ac sydd wedi'i ailheintio â'r clefyd, gael eu dinistrio. Dylai gwenynwyr ystyried o ddifrif yr opsiwn o ddinistrio unrhyw nythfeydd y mae mwy na 25% ohonynt wedi'u heintio'n weladwy.

Ysgwyd Haid

Yn achos nythfa â chwe ffrâm o fag neu fwy, y mae llai na 50% ohonynt wedi'u heintio'n weladwy ac sydd mewn cyflwr da fel arall, Ysgwyd Haid yw'r driniaeth a ffefrir am ei bod yn cael gwared ar lawer o'r deunydd heintiedig o'r nythfa ac yn ffordd effeithiol o frwydro clefyd Ewropeaidd y gwenyn a lleihau'r tebygolrwydd o ailheintio. Fel arfer, dim ond rhwng canol mis Mawrth a chanol mis Gorffennaf y caiff triniaeth Ysgwyd Haid ei rhoi, yn dibynnu ar yr ardal a'r tymor. Bydd fel arfer yn rhy oer i wenywyr dynnu crwybrau newydd yn effeithiol cyn mis Mawrth, a gall colli mag fod yn niweidiol bryd hynny. Pe bai'r driniaeth yn cael ei

rhoi yn hwyrach na dechrau mis Awst, yna byddai mag a fyddai'n helpu'r nythfa i oroesi'r gaeaf yn cael ei ddinistrio. Bydd yr Arolygydd Gwenyn Awdurdodedig, gan drafod â'r gwenynwr, yn penderfynu a fyddai triniaeth Ysgwyd Haid yn briodol. Os bydd triniaeth Ysgwyd Haid wedi cael ei rhoi, bydd risg y gall y clefyd ddychwelyd, a dylai gwenynwyr ddilyn cam 3 yn y mesurau rheoli isod. Dylai'r gwenynwr ddarparu'r cyfarpar angenrheidiol a meddu ar y sgiliau a'r amser i allu rheoli'r nythfa ar ôl y driniaeth Ysgwyd Haid.

Os oes symptomau mewn nythfa, dengys gwaith ymchwil ei bod yn fwy tebygol bod y cyfrwng achosol *Melissococcus plutonius* yn bresennol mewn nythfeydd eraill yn yr un wenynfa. Ceir tystiolaeth bod triniaeth Ysgwyd Haid ar wenynfa gyfan yn fuddiol o ran dileu clefyd Ewropeaidd y gwenyn o wenynfa.

Gwrthfotigau

Gellir defnyddio gwrthfotigau yn gynnar neu'n ddiweddarach yn y tymor mewn achosion lle y tybir y byddai triniaeth Ysgwyd Haid yn anymarferol ac yn niweidiol i iechyd nythfeydd. Nid ar chwarae bach y bydd yr Arolygydd Gwenyn yn penderfynu gwneud hyn, ac ni chaiff gwrthfotigau eu rhoi fel mater o drefn.

Cyfrifoldebau Gwenynwyr

Mae'n bwysig i wenynwyr ddatblygu a chynnal y sgiliau angenrheidiol i allu adnabod arwyddion clefyd Ewropeaidd y gwenyn a rhoi arferion da ar waith yn y wenynfa. Bydd gosod crwybrau magu newydd yn rheolaidd yn lleihau pathogenau ac yn lleihau nifer yr achosion o glefyd Ewropeaidd y gwenyn. Gwyddys bod symud crwybrau rhwng nythfeydd yn peri risg uchel o ledaenu clefydau. Hefyd, bydd dilyn arferion hylendid da mewn gwenynfeydd yn lleihau lledaeniad y clefyd. Bydd gwell sgiliau hwsmonaeth, megis adnabod arwyddion clefyd y gwenyn, deall a dilyn arferion hylendid da a systemau cwarantyn mewn gwenynfeydd yn lleihau lledaeniad y clefyd, a byddent yn lleihau nifer yr achosion o glefyd Ewropeaidd y gwenyn.

Byddai lleihad o 1 o bob 10 yn nifer yr achosion o glefyd Ewropeaidd y gwenyn bob blwyddyn yn achosi lleihad sylweddol yng nghyfanswm yr achosion, ond byddai cynnydd o 1 o bob 10 y flwyddyn yn ddinistriol.

Ar y dudalen ganlynol, mae **Ffig. 1** yn dangos y newidiadau a ddisgwylir yn unol â'r cyfraddau hyn:

- Mae'r llinell ddu lorweddol ($r=1$) yn dangos y sefyllfa'r aros yr un fath mewn 10 mlynedd o'r lefel gychwynnol, sef 1,000 o achosion.
- Mae'r llinell las ($r=1.1$), sef cynnydd o 1 o bob 10 yn nifer yr achosion bob blwyddyn, yn dangos cynnydd cyflym yn nifer yr achosion o'r lefel gychwynnol, sef 1,000, gan gyrraedd 2,500 o achosion mewn pum mlynedd ac yna'n mynd y tu hwnt i raddfa'r graff.

- Mae'r llinell werdd ($r=0.9$), sef lleihad o 1 o bob 10 yn nifer yr achosion bob blwyddyn) yn dangos lleihad graddol yn nifer yr achosion i tua 100 y flwyddyn erbyn y 10^{fed} flwyddyn.




Fig. 1: dylanwad cyfradd heintio newydd ar newidiadau i lefel y clefyd

Mesurau Rheoli Clefyd Ewropeaidd y Gwenyn

Caiff amrywiaeth o gynlluniau rheoli eu rhestru mewn camau sy'n gysylltiedig â'r risg o glefyd Ewropeaidd y gwenyn. Noder – mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i wenyngwyr roi gwybod am unrhyw achosion o glefyd Ewropeaidd y gwenyn a ganfyddir a chytuno ar driniaeth gydag Arolygydd Gwenyn Awdurdodedig.

Cam 1 Os nad oes achosion o glefyd Ewropeaidd y gwenyn yn yr ardal:

- Archwilio nythfeydd am arwyddion o'r clefyd ddwywaith y flwyddyn
- Newid tri neu bedwar crwybr magu ym mhob nythfa bob blwyddyn
- Hylendid sylfaenol mewn gwenynfeydd
- Rhoi lloffydd mêl, mag ac atalyddion mewn cwarantyn ar lefel gwenynfa

Cam 2 Os oes achosion o glefyd Ewropeaidd y gwenyn yn yr ardal:

- Archwilio nythfeydd am arwyddion o'r clefyd deirgwaith y flwyddyn
- Newid pob crwybr magu bob dwy flynedd
- Hylendid trylwyr mewn gwenynfeydd
- Rhoi lloffydd mêl ac atalyddion mewn cwarantyn ar lefel nythfa

Cam 3 Os rhoddwyd diagnosis o glefyd Ewropeaidd y gwenyn yn y wenydfa yn ystod y 12 mis blaenorol

- Archwilio nythfeydd am y clefyd bedair gwaith y flwyddyn
- Newid pob crwybr magu ym mhob nythfa, a hynny drwy driniaeth ysgwyd haid yn ddelfrydol
- Hylendid trylwyr mewn gwenynfeydd
- Rhoi lloffydd mêl, mag, porthwyr ac atalyddion mewn cwarantin ar lefel nythfa

Cam 4 Os oes achosion parhaus o glefyd Ewropeaidd y gwenyn wedi bod yn y wenydfa ers dwy flynedd neu fwy

- Archwilio nythfeydd am arwyddion ymhob ymweliad â'r wenydfa; Hylendid trylwyr iawn mewn gwenynfeydd
- Hylendid trylwyr iawn mewn gwenynfeydd
- Rhoi lloffydd mêl, mag, porthwyr ac atalyddion mewn cwarantín ar lefel nythfa; Rhoi cyfarpar arall mewn cwarantín ar lefel gwenynfa
- Rhoi triniaeth 'Ysgwyd Haid' i bob nythfa bob blwyddyn
- Dinistrio pob nythfa sy'n dangos arwyddion o glefyd Ewropeaidd y gwenyn
- Cynnal gwenynfa ysbyty

Mae'n bosibl bod rhai o'r mesurau hyn yn ymddangos ychydig yn eithafol, ond gellir dewis a dethol y rhai sy'n addas i anghenion y sefyllfa unigol a'r sefyllfa yn lleol. Os na fydd gwenynwyr yn gwneud dim a bod yr achosion o glefyd Ewropeaidd y gwenyn yn gwaethygu, gallai hynny gael effaith enfawr a gostwng lefelau cynhyrchu mêl a pheillio a niferoedd gwenynwyr. Os caiff sgiliau hwsmonaeth ac adnabod eu gwella, dylai clefyd Ewropeaidd y gwenyn ddod yn broblem lai cyffredin, gan arwain at gynnydd sylweddol mewn lefelau cynhyrchu mêl a pheillio.

Mae rhagor o wybodaeth am y gweithdrefnau hyn i'w gweld ar BeeBase yn y Taflenni Ffeithiau hyn: '*Replacing old Brood Comb*', 'Hylendid a Chwarantín mewn Gwenynfeydd', 'Ysgwyd Haid' ac yn y daflen gynghorol '*Foulbrood Disease of Honey Bees and Other Common Brood Disorders*'.

National Bee Unit

APHA, Room 11G03, York Biotech Campus,
Sand Hutton, York YO41 1LZ
Ffôn: 03003030094 E-bost: nbu@apha.gov.uk
Gwefan: www.nationalbeeunit.com

Ionawr 2022

(h) Hawlfraint y Goron 2022

Gallwch aildddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk